Newyddion – Hydref 2011

PIMS: Cawl Nos Galan Gaeaf – 31 Hydref 2011

Cyfle ***PIMS*** i gefnogi Elusen yr Eglwys - **Ambiwlans Awyr Cymru** - oedd Nos Galan Gaeaf 2011. Bu'r Gweinidog a'i blant wrthi yn brysur yn paratoi ar gyfer y noson; y Gweinidog (*llun*) yn cynhyrchu Cawl Moron a Choriander, a Chawl Pwmpen, Connor a Shani wrthi yn paratoi'r tair llusern i'n croesawu i Festri Minny Street. Estynnwyd gwahoddiad i Aelodau'r Eglwys ymuno â ***PIMS*** o amgylch y byrddau a gwerthfawrogwyd yn fawr fod cymaint wedi troi allan i gefnogi ein Pobl Ifanc. Ynghyd â'r cawl a'r afalau pôb, a'r sgwrs, cafwyd adloniant cerddorol gan Manon a Mared - y tro cyntaf i ni gael cyfle i wrando ar y ddwy yn canu deuawd ar eu hofferynnau - ac Enlli yn canu darn a ymddangosai'n hynod o gymhleth ar y ffliwt! Braint oedd cael gwrando ar dair mor dalentog sy'n cyfrannu cymaint i fywyd ein Heglwys. Aelodau PIMS fu'n gweini wrth y byrddau ac estynnodd hynny gyfle euraidd i bawb ddod i adnabod ei gilydd yn well; mae'n Pobl Ifanc wedi sôn am eu hawydd i wneud hyn mewn aml drafodaeth a gwyddom am y pwysigrwydd y rho'r Gweinidog ar ddatblygu'r berthynas arbennig hon. Trwy dderbyn cyfraniadau ariannol 'roedd heno hefyd yn gyfle i ***PIMS*** weithredu eu dymuniad i fod yn rhan o weithgarwch y **Cylch Dinasyddiaeth** ac ymestyn allan i'r gymdeithas o'i hamgylch. Byddwn yn dychwelyd i'n hastudiaethau 'emynyddol' yn ein sesiwn nesaf!

Munud i Feddwl - 31 Hydref 2011

Fuoch chi'n 'hel solod' neu 'fwyd cennad y meirw'? Rhoddion i dalu am weddïau dros eneidiau yn y purdan. Yn ôl traddodiad, ar Nos Galan Gaeaf tramwyai ysbrydion trwy'r wlad a chredid bod modd rhagfynegi'r dyfodol trwy amryw ddefodau, gan gynnwys coelcerthi. Sefydlodd yr Eglwys ganoloesol Ŵyl yr Holl Saint a Gŵyl yr Holl Eneidiau. Bellach daeth arferion y Calan Gaeaf Americanaidd neu'r '*Hallowe'en*' i fri ar draul Nos Galan Gaeaf; cawn wybod beth feddwl y Gweinidog am hyn oll mewn **Munud i Feddwl**.

Cyfri'r Oriau, Doethineb Solomon, Aflonyddu a Gorffen – 30 Hydref 2011

Elin a Ffion oedd yn ein harwain mewn defosiwn yn yr **Oedfa Foreol**. Hanes Adeiladu'r Deml oedd canolbwynt ein sylw; dyna hefyd fu'n derbyn sylw'r **Ysgol Sul,** gan ehangu ar ac ychwangeu at y gwaith a ddechreuwyd yr wythnos ddiwethaf. Cafwyd cyfle yn nosbarthiadau'r Plantos a'r Plant i drafod beth yw Arch y Cyfamod Ysgol Sul Minny Street a'r rheolau a roddwyd ynddidoethineb? Gofynnwyd i bawb beth fyddent yn ei ddewis pe byddai rhywun yn rhoi unrhyw



ddymuniad iddynt - '*Lego*' oedd ateb un, pethau 'sbarcli' oedd ateb arall a mynnodd un mai Cacen Tylwyth Teg fyddai orau ganddi …. doethineb oedd dymuniad Solomon! Aethpwyd ati wedyn i dynnu a lliwio llun o Deml Solomon ynghyd â thrafod pwysigrwydd Arch y Cyfamod. Oddi mewn i'r Arch rhoddwyd 'Rheolau Duw'. Bu mynychwyr yr Ysgol Sul wrth yn cynllunio ac adeiladu eu 'bocs aur' hwythau, pob un yn ysgrifennu ei reol bwysig cyn selio'r cyfan i greu Arch y Cyfamod Ysgol Sul Minny Street. Y Deml fu testun trafod y Bobl Ifanc hefyd - buwyd yn trafod pwrpas a gwerth aberth; priodoldeb adeiladu temlau i Dduw … ai dyma ein priod waith?; ai cywir yr hierarchaeth offeiriadol a fodolai o fewn i'r Deml? Treuliwyd y 10 munud olaf o'r Ysgol Sul yn trafod materion cyfoes - diddorol oedd adroddiad Megan o'r 24 awr a dreuliodd mewn Cymuned Fwdïaidd yn yr Alban fel rhan o'i Chwrs Lefel A; cafwyd hefyd drafodaeth wych ar agwedd y Cristion tuag at gomiwnyddiaeth a chyfalafiaeth yng nghyd-destun y brotest sy'n digwydd o flaen Cadeirlan 'St.Paul's' yn Llundain.

Y Parchedig Arglwydd Roger Roberts, Llandudno oedd ein Pregethwr Gwadd am y dydd. Fe'i adnabyddir fel gwleidydd - bu'n Llywydd Cymru o'r Rhyddfrydwyr ac yn ddiweddarach y Democratiaid Rhyddfrydol; ers ei ddyrchafu i Dŷ'r Arglwyddi ef sy'n siarad ar ran ei blaid ar Faterion Cymreig a Datblygu Rhyngwladol. Mae'r Parchedig Roger Roberts hefyd wedi bod yn Weinidog gyda'r Wesleaid ers dros 50 mlynedd, yn gweinidogaethu ym Mhenllyn cyn ymgartrefu yn Llandudno a dod yn Arolygydd y Dalaith. Yn ddiweddar cyhoeddodd ei atgofion o dan y teitl "*Hel Tai - O Dŷ Plant i Dŷ'r Arglwyddi*" (Gwasg y Bwthyn, 2010). Ar ôl gwrando ar Adnodau'r Plant bu'n Cennad yn cyfrif yr oriau gyda'r Plant - addas iawn o gofio bod yr awr 'wedi troi' dros y nos aeth heibio: **1** - un Duw; **2** - dau Destament y Beibl; **3** - y Drindod Sanctaidd, y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glan; **4** - Mathew, Marc, Luc ac Ioan - y Pedair Efengyl; **5** - rhif y morwynion call a'r morwynion ffôl; **6** - yr amser a gymerodd i Dduw greu ei fyd; **7** - seithfed dydd yr wythnos - Dydd Gorffwys; **8** - Noa, Sem, Cham a Jaffeth a'u gwragedd, yr with a achubwyd yn yr Arch; **9** – y naw gwahanglwyf na ddychwelodd i ddiolch ar ôl eu hiachau; **10** - Deg Gorchymyn; **11** - nifer y disgyblion ffyddlon; a **12** - rhif y disgyblion o gynnwys Jwdas Iscariot.

Neges wleidyddol Gristnogol oedd gan ein Cennad yn **Oedfa'r Bore**. Seiliwyd y sylwadau ar gymal o Lyfr yr Actau: "*Y mae aflonyddwyr yr Ymerodraeth wedi dod yma hefyd*" (Actau 17:6b). Fe'n hatgoffwyd am Paul a ... troi'r byd ben i waeredSilas yn teithio i Thesalonica. Cyn iddynt gyrraedd crëwyd cyffro gan fod stori wedi mynd ar led eu bod yn pregethu'n 'wahanol' - yn pregethu Crist. "*Y mae'r bobl hyn i gyd yn troseddu yn erbyn ordeiniadau Cesar trwy ddweud fod brenin arall, sef Iesu*" (Actau 17:7b) oedd y si! Gwelwn, yn yr hanesyn hwn, sut gall nifer fach o bobl droi'r byd ben i waered. Cenedl fechan oedd gwlad Palestina, a threfi di-nod oedd Bethlehem a Nasareth: "*A all dim da ddod o Nasareth?*" (Ioan 1:46). Ond yma y ganwyd ac a fagwyd Iesu. A phwy wnaeth Iesu ddewis yn ddisgyblion iddo? - deuddeg o'r 'werin bobl'. Pobl gyffredin a lwyddodd i newid cwrs hanes. Darfu'r ymerodraeth

Rufeinig ond drwy'r Ysbryd Glan, cynyddu mewn niferoedd wnaeth dilynwyr Crist gyda bellach dros 2 biliwn o Gristnogion ar draws byd. A'r neges i ni yn 2011: gall cenedl fechan, fel Cymru, wneud gwahaniaeth mawr a gall unigolion newid cwrs y byd. Fel esiamplau cyfeiriodd ein Pregethwr Gwadd at Madog (ab Owain Gwynedd), yn ôl traddodiad yn hwylio yn 1170, o Landrillo yn Rhos i Mobile Bay, Alabama. Mae cysylltiad teuluol rhwng Thomas Jefferson (1743-1826), awdur Datganiad Annibyniaeth yr Amerig (1776), â Llanberis a ganwyd hen fam-gu Abraham Lincoln (1809-1865) yn Ysbyty Ifan ger Betws y Coed! Hanai Joseph Parry (1841-1903) (Enw yng Ngorsedd, "Pencerdd America") o Ferthyr ond ymfudodd i'r America gyda'i deulu yn 1854. Unigolion o genedl fechan a gafodd gryn argraff ar genedl dipyn yn fwy!. Ein dyletswydd ni yn 2011, bob yr un ohonom, yw sicrhau bod dylanwad ein tystiolaeth yn troi'r byd ben i waered. Mae yna waith mawr i'w wneud o hyd ac mae'n ddyletswydd arnom i ddangos cariad a thystiolaeth ein Harglwydd Iesu Grist ym mhopeth a wnawn. Dyna ein dyletswydd, dyna ein braint.

"*Yna, wedi iddo gymryd y gwin, dywedodd Iesu, "Gorffennwyd." Gwyrodd ei ben a rhoi i fyny ei ysbryd.*" (Ioan 9: 30). Canolbwyntio ar y gair "*Gorffennwyd*" a wnaethom yn yr **Oedfa Hwyrol**; yng nghyd-destun Croesholiad Iesu gellir dehongli'r gair mewn tair ffordd. ***Gorffennwyd - methiant***; yn sicr dyna beth welodd teulu a chyfeillion yr Iesu wrth iddynt ymgynnull o amgylch y Groes a'i gweld ei Harglwydd yn marw. Daeth y cyfan i ben! Daeth y diwedd! Methu bu hanes yr Hwn a ddaeth i fod yn Feseia, i achub ei bobl. Cyfeiriodd ein Cennad at Ddameg y Winllan a'r Tenantiaid (Mathew 13: 10-17). Anfonodd Duw ei Broffwydi ar hyd y canrifoedd i geisio ennill ei bobl yn ôl ond methu bu eu hanes; yn y diwedd anfonodd ei Fab - arteithiwyd a lladdwyd hwnnw - onid methiant fu'r cyfan?

Gorffennwyd - llwyddiant - cwblhawyd! Yng Nghroesholiad ein Harglwydd cwblhawyd bwriad Duw i gyfannu'r byd - Duw a dyn, dyn a chyd-ddyn. Trwy ei farwolaeth llwyddodd Crist, yn nerth Duw, i lapio'r byd mewn cariad - y cariad a ddangosir yn hanesion Sacheus (Luc 19: 1-10), y Mab Afradlon (Luc 15: 11-32) a'r Samariad Trugarog (Luc 10: 25-37) - cariad sy'n llifo dros bob ffin:

"y ddraig a 'sigwyd gan yr Un,
cans clwyfwyd dau, concwerodd un,
a Iesu oedd efe."

(William Williams 1717-91; *C.Ff.* 522)

Gorffennwyd - gwaith gorffenedig. Cyfeiriodd ein Pregethwr Gwadd at grefftwaith cain pulpud Capel Minny Street - cywrain a gorffenedig; yn union fel y Lon Goed a'i "llonydd gorffenedig" (o Eifionydd gan R Williams Parry 1884-1956). Ar y Groes, sicrhaodd yr Arglwydd Iesu bod gorffen priodol a chywrain ar anferthedd Cariad Duw. Amhosibl 'gwella' ar yr hyn a ddigwyddodd ar Galfaria - dyma berffeithrwydd, dyma orffen! Ein braint ninnau yw cael ymdrochi yng nghanol y môr hwn o gariad - a orchfygodd fethiant, a gwblhaodd dymuniad Duw ac a sicrhaodd sglein orffenedig ar ein perthynas â Duw.

Ar ôl y ddwy oedfa bu cyfle i ni fel aelodau i brynu nwyddau, gan gynnwys cardiau Nadolig, er budd ein helusen - **Ambiwlans Awyr Cymru**. Y Parchedig Menna a Robin Brown sy'n gyfrifol am y stondin. Braf hefyd oedd gweld bocs casglu '***Ein Hefengyl Ni***' yn dechrau llenwi - cyfle i bob un aelod a phlentyn i gyfrannu i waith yr Eglwys. Fe'n hatgoffwyd gan **Cylch y Gymdeithas Ddiwylliannol a Bywyd Cymdeithasol** am yr alwad i rannu ceir, lle bo modd, er lles yr amgylchedd; i fod yn barod i gludo aelodau sydd heb gar i oedfaon a gweithgareddau eraill; i eistedd mewn rhannau gwahanol o'r capel o Sul i Sul er mwyn hybu gwell adnabyddiaeth yn ein plith; a'r angen am wirfoddolwyr i gasglu sbwriel ar y strydoedd o gwmpas y capel ar Fore Sul.

Munud i Feddwl – 26 Hydref 2011

Faint ohonoch sy'n cofio'r systemau '*stereophonic high fidelity'*? Neu a oes well gennych yr '*iPod*'? Ydych chi, mewn cyfnewid am lawr lwytho sydyn' wedi rhoi ansawdd sŵn heibio? Oni fyddai 'iPod' ysbrydol yn reit handi hefyd? … tamaid o hwn a thamaid o'r llall, a defnyddio'r '*shuffle*' i gael ychydig bach o bopeth! Gochelwch! Cawn rybudd gan y Gweinidog yn ei **Funud i Feddwl** wythnosol

Bethania: Fesul Cam trwy Efengyl Mathew – 25 Hydref 2011

Tra 'roedd Iesu a'i dri disgybl yn mynd trwy brofiad aruchel ar y mynydd, 'roedd y naw disgybl arall mewn trafferth ar waelod y mynydd! Hanes iachau'r bachgen â chythraul ynddo (Mathew 17: 14-23) oedd testun ein sylw heno. Fel yn narlun enwog Raphael (1483-1520), *The Transfiguration*, ceir yma gyferbyniaeth fawr: yr olygfa ar gopa'r mynydd yn llawn tangnefedd a'r olygfa ar odre'r mynydd yn llawn ymryson a thrueni. Rhaid i'r dyffryn wrth brofiad y mynydd; rhaid i brofiad y mynydd ddod i lawr i ymgeleddu trueni'r dyffryn. Cafwyd trafodaethau egniol a gafaelgar ar dri chwestiwn. Beth yw ffydd? A ellir gwella'r byd a'i wasanaethu'n iawn heb ffydd yn Nuw? Beth sy'n sefyll ar ffordd cenhadaeth lwyddiannus yr eglwys yn y byd heddiw?

Camel, Godineb a Halen – 23 Hydref 2011

Elen ac Elin fu'n arwain ein defosiwn yn yr **Oedfa Foreol**. Gan mai y Brenin Solomon yw Thema'r **Ysgol Sul** y mis hwn , priodol oedd clywed hanesion Breuddwyd Solomon (I Brenhinoedd 3: 5-15) ac Adeiladu'r Deml (I Brenhinoedd 6) o "*Beibl Bach i Blant*". Arweiniwyd y plant a'r plantos wedyn i'r anialwch i astudio un o anifeiliaid mwyaf hynod ein planed - y camel! Fe'n hatgoffwyd o bwrpas traed mawr a choesau hirion y camel -

y naill i osgoi suddo yn y tywod a'r llall i redeg yn gyflym - ynghyd â'r lwmp ar ei gefn sy'n sicrhau na fydd yn sychedig. Sicrhaodd Duw fod gan y camel yr adnoddau i fyw yn ei gynefin, yr anialwch; felly hefyd y mae Duw yn sicrhau bod gennym ninnau bopeth sydd arnom eu hangen.

Cynnwys hynny'r adnodau a gyflwynir gan y plant o Sul i Sul a'r hyn a ddysgir yn yr Ysgol Sul.

Ein Pregethwr Gwadd heddiw oedd Swyddog Cyfathrebu **Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**, Alun Lenny. Wedi dros 30 mlynedd fel gohebydd newyddion nid syndod mai her cyflwyno a chyfleu mawredd Iesu mewn iaith a dull perthnasol oedd canolbwynt ei sylwadau. Cawsom ein hatgoffa o'r adnod a geir ar blac ym Mhulpud Eglwys Minny Street - plac a gyflwynwyd gan Blant yr Ysgol Sul adeg dathliadau Pen-blwydd yr Eglwys yn 125 mlwydd oed: "*Syr, fe hoffem weld Iesu*" (Ioan 12:21). Ond sut mae dechrau gwneud hyn?, gofynnodd. Mae cyfrifoldeb arnom i gyfleu Iesu mewn ffyrdd y bydd bobl yn eu deall - ffyrdd newydd a gwahanol, ffyrdd amrywiol a ffyrdd sydd yn cofleidio cymdeithas. Rhaid efallai dilyn llwybrau gwahanol a rhaid yn sicr wrth ryddid i ddatgan barn. Cyfeiriodd ein Cennad at y ffaith ei bod yn Sul y Beibl; hyd yn oed ymysg tudalennau'r Ysgrythur ceir amrywiaethau - dwy fersiwn o'r Creu a phedwar cofnod o hanes Bywyd Iesu. Mae'r Beibl yn llyfr byw, rhaid dod ato, a rhaid i ninnau ei gyflwyno, â meddwl agored ac o gyfeiriadau gwahanol.

Y Wraig a Ddaliwyd mewn Godineb' (Ioan 7:53 - 8:11) oedd testun ail fyfyrdod yr **Oedfa Foreol**. Yma gosodir Iesu ar Brawf gan yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid. Gan gyfeirio at Gyfraith Moses a'r arfer o labyddio gwragedd godinebus, ceisiodd yr Awdurdodau Iddewig orfodi Iesu naill ai i ddod i wrthdrawiad â'r Awdurdodau Rhufeinig, nad oedd yn caniatáu i'r Iddewon weinyddu'r gosb eithaf, neu i fynd yn groes i Gyfraith Moses. Ond, "*Plygodd Iesu i lawr ac ysgrifennu ar y llawr â'i fys*" (Ioan 8:6b). (Llun: Christ and the Woman taken in Adultery gan Pieter Brueghel the Younger (1564-1636)) Ni sonnir beth yn union a ysgrifennwyd ond gellir cysylltu'r weithred â'r adnod a ddarllenir yn Llyfr Jeremeia, *"... torrir ymaith oddi ar y ddaear y rhai sy'n troi oddi wrthyt*" (Jeremeia 17: 13) - yn Saesneg, "*Those who turn away from you will be written in the dust ...".* Dielir pob ysgrifen yn llwch y llawr gan awel; dyma Iesu yn atgoffa'r Ysgrifenyddion a'r Phariseaid o'u byrhoedledd. Nid dweud wrth yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid am beidio gwneud a wnaeth yr Iesu ond eu gorfodi i ddeall dros eu hunain: "*Na fernwch, fel na'ch barner*" (Mathew 7: 1). Trwy Fuchedd Iesu gwelwn bod doethineb a thosturi Duw yn wahanol i'r hyn a welir yn yr Hen Destament. Ymddiriedodd Iesu yng nghydwybod yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid a dangosodd bwysigrwydd yr ail gyfle: "*Nid wyf finnau'n dy gondemnio chwaith*" (Ioan 8:11). Yr her i ni, er gwaethaf yr holl anfadwaith a welwn o'n cwmpas - gan gynnwys y gorthrymu a ddigwydd i wragedd mewn gwledydd ar draws y byd - yw credu bod yr hil ddynol yn werth ei hachub.

" *diolch iddo*
byth am gofio llwch y llawr"

(Morgan Rhys, 1716-79. *C.Ff.* 439)

Diddorol oedd clywed hanes yr emynyddes Martha Llwyd (1766 - 1845) ar ddechrau'r **Oedfa Hwyrol**. Fe'i ganwyd ar fferm Nantbendigaid ym Mhlwyf Cynwyl Elfed; symudodd ei theulu i fyw ym mhlwyf cymdogol Llanpumsaint (llun: Eglwys y Plwyf, Llanpumsaint) tra 'roedd yn dal yn faban. Priododd ofaint lleol, Dafydd Llwyd, a ganwyd iddynt naw o blant. Er dioddef o gloffni mawr bu'n aelod ffyddlon ar hyd ei hoes yn Eglwys Fethodistaidd Bethel, Llanpumsaint ac arferid

gweld ei phlant, neu gymdogion, yn ei chario mewn cadair i'r oedfaon. Fe'i claddwyd, gyda'i gwr, ym mynwent yr Eglwys Blwyf. Ar Ddydd Sadwrn, 15 Hydref 2011 cynhaliwyd Oedfa Goffa yng Nghapel Bethel cyn dadorchuddio plac ar wal y tŷ cyfagos lle bu'n byw. Cyfansoddodd nifer o emynau - yn wir dywed rhai bod William Williams Pantycelyn (1717-1791) wedi cyhoeddi rhai ohonynt o dan ei enw. Ceir cyfeiriadau ati fel 'Ann Griffiths Sir Gaerfyrddin' - cyfeiriad digon dealladwy o ddarllen geiriau a myfyrio ar batrymau neges rhai o'i hemynau:

"*A goruchwyliaeth rasol*
Y di-gyfnewid Dduw,
Sy'n ddigon i mi farw
A digon i mi fyw."

Ceir enghreifftiau o'i hemynau yng nghyfrol newydd Edwin C Lewis, *Mil a Mwy o Emynau* (Cyhoeddiadau'r Gair, 2011)

"*Chwi yw halen y ddaear; ond os cyll yr halen ei flas, a pha beth yr helltir ef?*" (Mathew 5: 13)
"*Da yw'r halen, ond os paid yr halen a bod yn hallt, a pha beth y rhowch flas arno? Bydded halen ynoch eich hunain, a byddwch heddychlon tuag at eich gilydd.*" (Marc 9: 50)
"*Bydded eich gair bob amser yn rasol, wedi ei flasu â halen, ichwi fedru ateb pob un fel y dylid*" (Colosiaid 4: 6)

Halen oedd testun prif fyfyrdod ein **Hoedfa Hwyrol**; adnodd cyffredin, hanesyddol a naturiol ond adnodd hynod o bwysig! Soniodd ein Cennad am y defnydd traddodiadol o halen i wahardd 'drwg' - soniodd am yr arfer o roddi halen ar friw ac o halltu cig. Onid dyna ein gwaith ninnau? … bod yn halen yng Nghymdeithas 2011. Cyfeiriodd at yr Eglwysi, Cyfundebau, ac Enwadau ac Undebau hynny sy'n barod i ddatgan barn Gristnogol yn glir a chroyw. Fe'n hatgoffwyd bod gennym ninnau, fel unigolion, waith mawr i'w wneud fel halen - efallai mai go brin y gall llawer ohonom fod fel William Wilberforce (1759-1833) yn halltu cymdeithas i'r fath raddau ond mae gennym oll ein dyletswydd. Na foed i ninnau beidio bod yn hallt! Crea halen syched! Ceir syched corfforol am ddŵr ond onid ein rôl ni, trwy ein gweithredoedd, ein buchedd a'n hymrwymiad yw creu syched mewn eraill am y ffydd ac am gael yfed dŵr bywiol yr Arglwydd Iesu Grist. Awn ati, oedd her ein Pregethwr Gwadd, i greu cymdeithas sy'n sychedu am ras a chariad Duw. Gan gyfeirio at waith *Yr Ystafell Fyw*, ein helusen yn ystod 2010-2011, tanlinellodd Alun Lenny mor bwysig yw sicrhau bod syched ein cyd-drigolion yn cael ei ddiwallu gan Ddŵr y Ffydd yn hytrach na'r 'ddiod' a gynigir gan gymdeithas. Ni ellir diwallu gwir syched trwy alcohol a chyffuriau. Gall halen hefyd doddi! Onid dyna a wnawn yng nghanol cyfnodau o rew ac eira - rhoi halen ar ein strydoedd. Byddwn ninnau yn daenellwyr halen mewn cymdeithas i doddi'r galon galed, i ryddhau pobl o gadwynau materoldeb ac i adael cynhesrwydd gofal Iesu'r Bugail Da i gerdded i mewn i fywydau pobl. Adnodd syml sydd yn cael ei gloddio o grombil y ddaear yw halen - mae ganddo neges bellgyrhaeddol i Gristnogion yn 2011.

Yn ei Lythyr Agored achlysurol i Eglwys Minny Street egluro'r meddylfryd tu nôl i gynllun ***Ein Hefengyl N***i a wna'r Gweinidog. Bwriad y gweithgarwch hwn yw creu llawysgrif cwbl unigryw sy'n dweud rhywbeth amdanom ni a'n gweinidogaeth fel Eglwys Iesu Grist. Mae ***Ein Hefengyl Ni*** yn rhan annatod bwysig o'n pwyslais eleni, fel Eglwys, ar weinidogaeth yr holl bobl - pawb a'i le, pawb a'i waith! Ym Mhedair Tudalen ***Y Tyst*** yr wythnos hon ceir erthygl bryfoclyd sy'n gofyn cwestiynau o'r pwysigrwydd pennaf. Ein Gweinidog sy'n gofyn a ydyw ef, ei gydweithwyr yn y weinidogaeth a ninnau fel eglwysi wedi troi yn ddim mwy na '*service providers*' i gynifer o bobl,

gan gynnwys rhai a restrir fel aelodau? A welir ein heglwysi a chapeli, a'n gweinidogion a'n hoffeiriadon yn ddim amgenach na gwasanaeth sydd 'ar gael' pan fydd angen cynnal priodasau, bedyddiadau ac angladdau? Gan mai 'gwasanaeth' yw'r eglwys ym meddyliau cynifer oni fynnant wedyn yr hawl i benderfynu faint o'r hyn â gynigiwn maent ei eisiau? Bu'r Gweinidog yn cyffwrdd â chwestiynau tebyg yn ei **Funud i Feddwl** ar Columbo ychydig wythnosau nol; ydy', mae'r erthygl yn ***Y Tyst*** *yn* dwysbigo ond mae hefyd yn gofyn cwestiynau anodd a dyrys sydd raid i ni eu hwynebu a'u hateb!

Munud i Feddwl - 21 Hydref 2011

"*The blood-dimmed tide is loosed, and everywhere the ceremony of innocence is drowned …*" (o *Second Coming* gan William Yates; cyhoeddwyd gyntaf 1920). Rhieni yn ymladd a strancio ar iard un o ysgolion Caerdydd; lladd Mummar Gaddafi yn Libya. Oes yna gysylltiad? Mewn **Munud i Feddwl** ychwanegol myfyria'r Gweinidog ar ddau ddigwyddiad a gyrhaeddodd tudalennau blaen y papurau newyddion yn ystod y dyddiau diwethaf.

Munud i Feddwl – 19 Hydref 2011

"*Pam y creodd Duw gocrotjis?*", gofynnodd y bardd; mae'r Gweinidog yn gofyn cwestiwn tebyg! Chwarae teg iddo, mae'n amlwg ei fod yn gwybod bod yna wahaniaeth entomolegol mawr rhwng cocrotsien a chwilen! Metha, er hynny, ddeall sut y llwyddodd Noa i sicrhau goroesiad cymaint o rywogaethau o drychfilod. Ac ar ben hyn i gyd, yn ystod yr wythnos a aeth heibio cyflwynodd yr Ysgrifennydd Amddiffyn ei ymddiswyddiad. Mae'r byd yma'n gymhleth! Daw'r cwbl yn glir mewn **Munud i Feddwl**.

Cylch y Gymdeithas Ddiwylliannol a Bywyd Cymdeithasol: Y Gymdeithas – 18 Hydref 2011



Ychydig o Frethyn Cartref cawsom heno gyda dau o'n haelodau'n sôn am luniau oedd ganddynt yn eu cartrefi ac am yr atgofion oedd yn codi o'r lluniau hyn. Bu Russ Thomas yn dangos llun glöwr ac yn sôn am ei fachgendod yn ardal Abertawe gan olrhain hanes y glowyr a'r caledi oedd yn wynebu teuluoedd yr ardal. Darlun diddorol iawn i'r rhai ohonom na chafodd eu magu mewn ardal lofaol. Llun o'i gartref a gafodd gan ffrind o'r America oedd gan John Albert Evans. Aeth ymlaen i sôn am ei ardal enedigol sef Bwlch Llan. Mae'r ardal hon yn bwysig iawn i John fel y dangosodd pan fu criw yn teithio'r ardal y llynedd ac yn cerdded ar hyd ei chefn gwlad. Bu'n sôn yn annwyl am ei blentyndod, y ffermydd a'r cymeriadau yn yr ardal.

Llwyau Caru, Addas ac Anaddas, a '*lle bo dau neu dri*' – 16 Hydref 2011

Yn dilyn y Gwasanaeth a'r Noson Goffi yn Eglwys Park End Nos Fercher, cafodd cynulleidfa Eglwys Minny Street gyfle heddiw i gyfrannu i goffrau **Cymdeithas y Beibl** . Canolbwyntia'r Gymdeithas ar sicrhau bod y Beibl ar gael, mewn ffurf gyraeddadwy, i drigolion y byd. Ynghyd â sicrhau argaeledd testun cyraeddadwy trefna'r Gymdeithas hefyd gyfresi o gyrsiau deongliadol; nid oes pwrpas mewn testun os nad yw'r darllenwyr yn ei ddeall! Daniel ac Ifan arweiniodd ddefosiwn agoriadol ein **Hoedfa Ddiolchgarwch** fore heddiw; priodol iawn oedd clywed geiriau cyfarwydd Dameg yr Heuwr (Mathew 13: 1-9). Fel y Plant a'r Plantos yn y Sêt Fawr cafodd yr Oedolion gyfle i gyflwyno eu hadnodau. '***Diolch***' oedd y thema a chafwyd cynhaeaf toreithiog o adnodau ac emynau: "*Diolchwch i'r Arglwydd, oherwydd da yw, ac y mae ei gariad hyd byth*" (Salm 118:29). Cawsom hefyd y fraint yn ystod yr Oedfa o fod yn dystion i fedydd **Megan Kenny**, merch Lisa a Sacha.

Erbyn hyn daethom fel cynulleidfa i ddisgwyl ambell thema amgen gan ein Gweinidog yn ei sgyrsiau boreol i'r plant. Llwyau caru oedd y thema heddiw! Ar ôl sôn am draddodiad y '*llwy garu*' arweiniodd y Gweinidog ei gynulleidfa drwy arddangosfa o lwyau. *Llwy fawr* yn datgan diolch am gariad mawr Duw; *llwy fach* yn diolch am bethau '*bach*' bywyd - gwên, cymwynas, gair bach caredig o ddiolch neu o gefnogaeth. Rhaid cofio nad pob llwy sy'n '*llwy garu*' - ceir hefyd *llwyau cyffredin* sy'n ein hatgoffa i beidio anghofio diolch am bethau cyffredin bywyd - dillad i'w gwisgo, addysg, bwyd a diod. Er yn gyffredin i ni, rhaid cofio nad ydynt felly i bawb ac fe heria'r llwy gyffredin ni i wneud popeth o fewn ein gallu i estyn cymorth i bobl ymhell ac agos sydd heb ddillad, addysg, cyfle, bwyd a dŵr glan dyddiol. Go brin y gwyddai neb ohonom fod y Gweinidog, unwaith, wedi cerfio '*llwy garu*' i'w rhoi i Lona (sydd erbyn hyn yn wraig iddo!). Fe'n hatgoffir gan y llwy hon o'r bobl sydd adref - y rheini sydd yn ein caru. Fe'n hatgoffir hefyd o'n gwerth fel trysor unigryw yng ngolwg Duw. Ceir ambell *lwy garu hynod o brydferth* - yn ddiolch am y cyfan o'n hamgylch - y wawr, y machlud, glan y môr, y ddinas, y wlad a phobl. Ac yn olaf - *llwy gacen*! Nid yn unig yn arwydd o'n diolch am fwyd ond fe'n hatgoffir gan ei melystra mor ffodus ydym ac mor felys ein byd. Er cwyno'n aml - cofiwn ddiolch am felyster bywyd.

Cafwyd Ysgol Sul llawn hwyl yn dilyn y Sesiwn yn y Sêt Fawr; **Solomon; ei ddoethineb** yw Thema'r Mis ond heddiw, efallai mai bwyta'r llwy gacen aeth â bryd Mynychwyr y Festri!

"*Myfi yw'r Arglwydd a ddaeth â chwi i fyny o'r Aifft i fod yn Dduw i chwi; byddwch sanctaidd, oherwydd sanctaidd wyf fi. Dyma'r ddeddf ynglŷn â'r anifeiliaid, yr adar, y creaduriaid byw sy'n llusgo drwy'r dyfroedd a'r creaduriaid sy'n ymlusgo ar y ddaear, er mwyn ichwi wahaniaethu rhwng yr aflan a'r glân, a rhwng y creaduriaid byw y gellir eu bwyta a'r rhai na ellir eu bwyta.*" (Lefiticus 11: 45-47) Mae'r gwaharddiad rhag bwyta cig mochyn yn un o'r pethau amlycaf am grefydd a diwylliant yr Iddew; dyma oedd thema ein myfyrdod yn yr Oedfa Foreol. Clywsom am bedwar eglurhad. ***Yr Esboniad Hanesyddol*** sy'n dadlau y gwaherddir Pobl Israel rhag bwyta rhai creaduriaid am ei bod yn rhan o ddefodau crefyddol cenhedloedd

estron! ***Yr Esboniad Meddygol*** sy'n cynnig na ddylid bwyta rhai anifeiliaid o ofidiau ac ymwybyddiaeth am ddiogelwch y gymuned. ***Yr Esboniad Diwinyddol*****:** o'n hastudiaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf o Lyfrau Genesis ac Exodus gwyddom fod Bendith Duw yn llifo tuag at y bugail tra ar y pryd yn prysuro heibio'r heliwr. Yn waharddedig mae'r creaduriaid hynny sydd yn hela; a ydy'r bwyd a ganiateir i'w fwyta yn adlewyrchu bwriad Duw ar gyfer ei bobl? ***Yr Esboniad Anthropolegol*** yw'r mwyaf credadwy. Mae Awdur Lefiticus yn credu mewn Duw trefnus. Gellir bwyta unrhyw beth sy'n perthyn yn daclus i'r drefn; ni ddylid bwyta unrhyw beth sy'n tarfu ar y drefn. Caniateir i bobl fwyta pysgod, er enghraifft, ond nid cregynbysgod - croesa'r rhain y ffin rhwng môr a daear. Defnyddir '*glân*' ac '*aflan*' yn rheolaidd yn Llyfr Lefiticus. Er yn gwbl gywir, cyfieithiadau digon gwan yw'r ddau air o'r Hebraeg gwreiddiol - ***tamei*** yn disgrifio rhywbeth neu rywun addas i fod ym mhresenoldeb Duw, ***tahor*** y gwrthwyneb. O gydymffurfio â threfn Duw - *tamei*; os na - *tahor*. O dderbyn bod ffiniau yn ein perthynas â bwyd, o groesi'r ffiniau hynny try ein byw, ac felly ein crefydd, yn *tahor* - anaddas. Pan mae bwyd ar gael mor hawdd fel yr anghofiwn y rhwydwaith o bobl a sicrhaodd ei fod ar gael i ni a bod pobl, ymhell ac agos, heb ddigon o fwyd ac yn marw o'i ddiffyg try ein ffordd o fyw, ein diwylliant a'n crefydda yn *tahor* - yn anaddas ac yn sarhad ar Dduw. Yr her i ni yng nghanol **Tymor Diolchgarwch 2011** yw ysgwyddo o'r newydd, ac o ddifrif, ein cyfrifoldeb Cristnogol am ein cyd-ddynion ac am gyflwr y byd. Os na wnawn hynny *tahor* - anaddas - bydd ein diolch ninnau.

Seiliwyd ein gweddïau heddiw ar themâu a ddewiswyd gan Gruffudd, Caradog a Helen Huws. Ers y Sul diwethaf, bu'r tri yn cadw golwg ar newyddion yr wythnos gan nodi'r pethau hynny'n lleol, cenedlaethol a rhyngwladol sydd yn mynnu lle yn ein gweddïau. Yn naturiol ddigon, bu'r ddau Dîm Cenedlaethol - rygbi a phêl-droed - yn ganolbwynt sylw'r cyfryngau. Cyfeiriodd Gruffudd ein sylw at Afghanistan lle bu ein lluoedd arfog yn ymladd ers 10 mlynedd bellach; mawr a dwfn bu'r colledion. Bu brwydro ffyrnig hefyd yn Sirte, Libya. Soniodd y teulu am Archesgob Caergaint yn ymweld â Zimbabwe ac yn cyfarfod â Robert Mugabe (Archesgob Caergaint mewn cyfarfod â Robert Mugabe). Yn olaf, cydiodd y teulu mewn erthygl am bobl yn defnyddio llai ar oriawr ac yn defnyddio teclynnau fel ffonau symudol i gadw amser mewn trefn: "*Arglwydd, rwyt ti y tu draw i amser, bydd drugarog wrthym ni sy'n gaeth i amser. Mae bywyd mor brysur, Arglwydd, a'r amser mor brin! Rho ddoethineb inni i ddefnyddio'n hamser yn unol â'th ewyllys - amser i weithio, i addoli, i orffwyso. Amen"*



Dau o Griw **Wedi 7**, Siwan a Rhodri, oedd wedi dewis ein hemynau ar gyfer Oedfa'r Hwyr. Erbyn hyn mae'r ddau wedi dyweddïo ac yn eu cyflwyniad, meddent: "*Yn fuan iawn ar ôl i ni gyfarfod mi wnaethon ni sylweddoli ein bod ni'n dau'n sobor o hoff o emynau, ac yn eu cyfri'n rhan annatod o'n haddoliad.*" "*Cymer, Arglwydd, f'einioes i*" (Frances R Havergal 1836-79 *cyf.* John Morris-Jones 1864-1929 *C.Ff.* 767) oedd eu dewis cyntaf. "*I ni,*" meddent, "*mae'r geiriau gonest yma'n cyfleu cymaint yr hoffem ni allu meddwl, siarad a gweithredu fel yr hoffai Duw i ni ei wneud … Mae'n emyn sydd yn dod a chysur i ni'n dau a gobaith bod modd i wella ar ein gwendidau.*" Wrth gyflwyno eu hail emyn, "*O llanwa hwyliau d'Eglwys*" (Siôn Aled *C.Ff.* 615; llun: *Y Mayflower: llong y Tadau Pererin ... "O llanwa hwyliau d'Eglwys yn gadarn yn y gwynt"*) soniodd Siwan a Rhodri sut mae'r emyn yn eu hatgoffa mai yn fuan ar ôl i iddynt gyfarfod y bu iddynt ddechrau dod i'r

oedfaon yn Eglwys Minny Street gyda'i gilydd. "*Mae'r emyn yma yn ein hatgoffa o'r teimlad hyfryd o fod yn perthyn i gapel sydd â chapten a chriw ffyddlon, ac sydd ar dân eisiau bod ar waith dros Iesu Grist.*" Un o gyfieithiadau Elfed (1860 - 1953; gwreiddiol gan J D Burns 1823-64), "*Yn wastad gyda thi*" (*C.Ff.* 672), oedd eu trydydd dewis. Dyma emyn sydd yn "*disgrifio'n hyfryd y nerth a'r sicrwydd a gawn o wybod bod Duw yn agos, pa beth bynnag sy'n digwydd yn ein bywydau.*" "*Nefol Dad, mae eto'n nosi*" (George Rawson 1807-89 *efel.* Elfed; *C.Ff.* 44) oedd yr emyn olaf o'u dewis. Dyma emyn sydd yn arbennig iawn i Siwan a Rhodri am ei fod yn "*dod a chysur mawr pan fyddwn ar wahân. Mae'n tawelu'n hofnau gan ein bod yn gwybod nad ydym ar ein pennau ein hunain.*"

Yn yr **Oedfa Hwyrol** cawsom droedio ein pumed a chweched cam drwy Efengyl Mathew! Cyfaddefiad gan y Gweinidog a gawsom yn ei fyfyrdod cyntaf ei fod wedi camddehongli cyd-destun y geiriau cyfarwydd "*A thrachefn 'rwy'n dweud wrthych, os bydd dau ohonoch yn cytuno ar y ddaear o ofyn am unrhyw beth, fe'i rhoddir iddynt gan fy Nhad, yr hwn sydd yn y nefoedd. Oherwydd lle mae dau neu dri wedi dod ynghyd yn fy enw i, yr wyf yn eu canol*" (Mathew 18: 19-20) ar hyd y blynyddoedd! Gŵyr Iesu bod Pobl Ffydd yn cecru'n aml (Llun: Paul a Barnabas yn Ymwahanu: "Bu cymaint cynnen rhyngddynt nes iddynt ymwahanu" (Actau 15: 39)) … am athrawiaeth a diwinyddiaeth, natur y weinidogaeth, Gair Duw, ein cenhadaeth neu liw carped y festri! Cecru ac anghytuno yw, a bydd, hanes yr Eglwys - a hynny'n, gam neu'n gywir, yn aml yn enw Iesu. Beth am aralleirio'r geiriau oedd yn sail ein sylw?, gofynnodd y Gweinidog: "*Oherwydd lle mae dau neu dri yn anghytuno yn fy enw i, yr wyf yn eu canol*." Onid oes yna gysur o wybod bod Iesu wedi addo glynu wrthym, beth bynnag yw testun yr anghytuno, beth bynnag yw rheswm y dadlau? Nid arwydd o amherffeithrwydd - o bechod - yw Pobl Ffydd yn dadlau, ond rhywbeth naturiol mae Iesu wedi ei ragweld, ac wedi cynnig cymorth i ymdopi â'r anghytuno ac i godi uwchlaw'r dadlau. Erys Duw hyd nes i ni fedru syllu i fyw llygad y llall mewn cariad a pharch. Yn ei ail fyfyrdod, aeth y Gweinidog â ni i Deyrnas Popeth o Chwith. Pobl ryfedd yw trigolion y Deyrnas hon … esgidiau ar eu pennau a hetiau am eu traed, prynu brethyn wrth y peint a llaeth wrth y metr. Yno, mae'r daran yn ddistaw, a'r mellt yn cadw stŵr. Mae cychod yn y strydoedd a cheir yn y dŵr; y frân yn canu trebl a'r dryw yn canu bas! "*Yna daethpwyd â phlant ato, iddo roi ei ddwylo arnynt a gweddïo. Ceryddodd y disgyblion hwy, ond dywedodd Iesu, "Gadewch i'r plant ddod ataf i a pheidiwch â'u rhwystro, oherwydd i rai fel hwy y mae teyrnas nefoedd yn perthyn. Ac wedi rhoi ei ddwylo arnynt, aeth oddi yno*" (Mathew 19: 13-15; llun: "*Gadewch i'r plant ddod ataf i* ...") Yng nghyfnod Iesu, ystyriwyd plant yn ddim byd amgenach nag oedolion yn y broses o gael eu creu! Yn ôl Iesu er nad oes gan blentyn statws, bwysigrwydd na dylanwad mae ganddo'r gallu i ddod â ni at Dduw. Yn Nheyrnas Popeth o Chwith Iesu arwain plant oedolion, mae'r meistr yn gweini ar y gwas a'r disgybl yn dysgu'r athro. Taith anodd yw'r daith i Deyrnas Popeth o Chwith, meddai, ond mae'n werth mentro arni. Dyma'r unig ffordd sydd yn arwain at Dduw.

Fe'n breintiwyd heddiw, unwaith eto, gan fyfyrdodau a phregethau pellgyrhaeddol a phwrpasol i Gynulleidfa o Gredinwyr yn 2011. Diolchwn i Dduw am hynny; mawr yw ein braint. Daeth y dydd i'w derfyn mewn **Koinonia Hwyrol** mewn bwyty Eidalaidd. Fel mae'n arfer gennym bellach, Koinonia Hydref yw'r Koinonia pryd fyddwn yn estyn gwahoddiad arbennig i fyfyrwyr ac oedolion ifanc sydd wedi symud i Gaerdydd i ymuno â ni. Cafwyd noson hwylus o drafodaeth yn amredeg dros bregethau'r dydd, cyrsiau gradd yn y Brifysgol, cynghanedd a dosbarthiadau cynghanedd,

meddygaeth a deintyddiaeth, ynghyd â Llŷr, a oedd wedi rhedeg Hanner Marathon Caerdydd fore heddiw, yn adrodd '*hanes y daith*'!

Cymdeithas y Beibl - 12 Hydref 2011



Ymunodd nifer o aelodau Eglwys Minny Street ag Adran Chwiorydd Caerdydd o **Gymdeithas y Beibl** heno mewn Gwasanaeth gyda Ffair a Noson Goffi yn dilyn yn **Eglwys Park End**. Un o'n cyd-aelodau, Marged Williams, yw Llywydd yr Adran a hi, ynghyd ag Ann Weeks, oedd yn gyfrifol am sicrhau cyflenwad digonol o wynwyn wedi piclo, marmaled, jam a chatwad i Stondin Minny Street! Y Parchedig Robert Bebb, gweinidog Eglwys Park End, oedd yn annerch a seiliodd ei neges ar ymateb Simon Pedr: "*Arglwydd, at bwy yr awn ni? Y mae geiriau bywyd tragwyddol gennyt ti …*" (Ioan 6:68). Cydiodd y Siaradwr Gwadd geiriau Pedr â hanes Esra'n darllen y Gyfraith i'r Bobl (Nehemiah 8: 1-12): "*Yr oeddent yn darllen o lyfr cyfraith Dduw, ac yn ei gyfieithu a'i esbonio fel bod pawb yn deall y darlleniad."* (Nehemiah 8: 8; Llun: Esra yn darllen ac esbonio'r Ysgrythur). Canolbwyntia Cymdeithas y Beibl ar sicrhau bod y Beibl ar gael i drigolion y byd. O'r 6912 iaith a glywir ar ein planed, mae mwy na hanner ohonynt heb un llyfr o'r Beibl yn perthyn iddynt. Mae gweithio dros argaeledd y Beibl yn rhan fawr o waith y Gymdeithas. Rhaid hefyd sicrhau bod testun y Beibl yn gyraeddadwy. Mae 52% o drigolion Ethiopia yn anllythrennog; rhaid sicrhau bod y Beibl ar gael mewn ffurf heb fod yn ysgrifenedig. Ynghyd â sicrhau argaeledd testun cyraeddadwy trefna'r Gymdeithas gyfresi o gyrsiau deongliadol; nid oes pwrpas mewn testun os nad yw'r darllenwyr yn ei ddeall! Stephen Price, organydd Eglwys Park End, oedd yn canu'r organ a daeth y gwasanaeth i'w derfyn yn sŵn Offrymddarn yn seiliedig ar emyn-dôn enwog J Morgan Nicholas (1895-1963), *Bryn Myrddin*. (Llun: The Orphans - Reading the Bible gan Hugues Merle (1823-1881))



Munud i Feddwl – 12 Hydref 2011

Onid yw hi'n rhyfedd sut mae'r bobl hynny sy'n gweld addoli yn rhywbeth llipa a llwyd, yn ei chael hi'n anodd i godi o'r gwely ar Fore Sul i ddiolch i Dduw am ei holl fendithion, neu yn rhy brysur i fynychu gwasanaeth o addoliad, yr union rai sydd am 'gapel' amser priodi a bedyddio! Mmmmm! "*Well, there is something you could help me with!*" ... daw cyfle ym **Munud i Feddwl** y Gweinidog yr wythnos hon! (Llun: *Peter Falk (1927-2011) fel Ditectif Columbo"You know there's been something that's been bugging me ... I couldn't get to sleep thinking about this.")*

Bethania: Fesul Cam trwy Efengyl Mathew – 11 Hydref 2011



Heno, Gweddnewidiad ein Harglwydd Iesu (Mathew 17: 1-13; llun: *The Transfiguration of Christ* gan Giovanni Bellini (1430-1516)) oedd testun ein sylw. Yng nghwmni Pedr, Iago ac Ioan, llwyddodd Iesu i gael ychydig o lonydd - encil. A oes angen encil ar ddisgyblion Iesu heddiw? Nid i osgoi dyletswyddau ond er mwyn gweld yn gliriach beth yw ein cyfrifoldebau fel Pobl Crist. A ddylem fel eglwysi sicrhau amser encil? Beth yw'r gwahaniaeth rhwng bod yn llonydd a bod yn segur? Ar y mynydd amlygwyd i'r disgyblion Iesu yn ei ogoniant. Ond beth yw'r '*Gogoniant*' hwn? A oes modd ei ddiffinio? Bu Aelodau ***Bethania*** wrthi mewn grwpiau bychain a gyda'i gilydd yn trafod ystyr a goblygiadau '*Gogoniant*'. A'r cwestiwn wrth ddod â'r sesiwn i'w therfyn: oes rhaid gweld Gogoniant Crist cyn ei ddilyn yn iawn?

PIMS: A fuoch chi erioed yn sgïo? - 10 Hydref 2011

Ar ôl gweithio'n galed mewn dwy sesiwn PIMS - y naill ar Emyn David Charles (1762-1834) "*O Iesu mawr, rho d'anian bur* ..." (*C.Ff.* 686) a'r llall ar waith Cyngor y Genhadaeth Fyd-Eang (*CWM*) yn y Tŷ Cenhadol yn Amsterdam, noson o hwyl, chwerthin a chwympo bu heno. Rhyw ddwy flynedd yn ôl bu *PIMS* yng Nghanolfan Sgïo ac Eir-fyrddio Caerdydd yn derbyn hyfforddiant eir-fyrddio; sgïo oedd y gamp heno! Yn nwylo medrus Hugh, yr hyfforddwr, llwyddodd bob un o'r 17 a ddaeth ynghyd nid yn unig i sefyll ar eu traed ond i wynebu her y llethrau! Cafwyd ambell godwm nodedig ond daeth hefyd yn amlwg bod gennym ambell Didier Defago a Lindsey Vonn, enillwyr medalau aur sgïo'r llethrau yng Ngemau Olympaidd y Gaeaf yn 2010, yn ein plith. Yn wahanol i'r arfer, ni welwyd y Gweinidog yn ymdaflu ei hun i'r her - efallai ei fod yntau bellach wedi cyrraedd oed y teimla mai callach yw peidio cychwyn rhai pethau!!!

Hofrennydd, Alwminiwm a 'Pethau Da" – 9 Hydref 2011

Tro'r **Oedfa Foreol Gynnar** oedd hi heddiw i ganolbwyntio ar ein helusen am 2011-2012: **Ambiwlans Awyr Cymru**. Buom yn ffodus i gael cwmni Margaret Squire o Abertawe; bu Margaret wrthi yn ein haddysgu, trwy luniau, fideo a ffeithiau, am waith yr elusen . Gyda'r Festri yn orlawn o blant a phobl ifanc (bu rhaid hyd yn oed cario rhagor o seddau o Ystafell y Diaconiaid!) mawr fu'r hwyl a'r syndod wrth sylweddoli cymaint ystod gwaith yr Ambiwlans Awyr - gwelwyd y criw yn cario cleifion o ddamweiniau ar yr M4, o lethrau'r Wyddfa ac o bentrefi diarffordd adeg eira. Gwelwyd

hefyd un o'r hofrenyddion yn disgyn ar y Maes Cenedlaethol yn Stadiwm y Mileniwm. Daeth



Margaret a llawer o nwyddau Ambiwlans Awyr Cymru gyda hi - bu'r hofrenyddion tegan yn hynod o boblogaidd ac enillodd '*Biggles*' serch y gynulleidfa yn gyflym iawn! Fel rhan o'n hymgyrch elusennol, bydd y Parchedig Menna Brown yn sicrhau cyflenwadau o nwyddau a chardiau Nadolig ac ati trwy gydol y flwyddyn. Cyn dod â'r Oedfa i ben, gan gofio am ddegfed pen-blwydd cychwyn y rhyfel yn Afghanistan ddydd Gwener ddiwethaf, bu'r Gweinidog yn sôn wrthym, ac yn arbennig wrth blant yr Eglwys, am bwysigrwydd gweithio dros heddwch yn ein byd.

Dychwelyd at Y Tabl Cyfnodol wnaethom yn yr **Oedfa Foreol**. Yn 1869, cyhoeddodd Dmitri Ivanovich Mendeleyev (1834- 1907) y Tabl Cyfnodol; gorchest fawr Cemeg yn y 19[eg] Ganrif!



Creodd Mendeleyev dabl a oedd yn hyblyg ac ystwyth, ac a fyddai'n tyfu gyda phob darganfyddiad o elfen newydd. Erys y Tabl, hyd heddiw, yn allweddol i'n dealltwriaeth o'n hunain a'r byd o'n cwmpas. Estyn y Tabl hefyd gyfle i ni weld a dysgu rhywbeth am ein crefydd a'n ffydd. Alwminiwm oedd testun ein sylw fore heddiw. Dim ond yn 1820 y darganfuwyd yr elfen ac, ar y cychwyn, ystyrid Alwminiwm yn drysor, cyfwerth ag aur a drytach nag arian. Pan anwyd mab, Napoleon Eugene (1856 - 1879), i'r Ymerawdwr Napoleon III (1808-1873), rhoddwyd ratl Alwminiwm iddo (llun)! Yn 1886 datblygwyd proses haws a rhatach o echdynnu Alwminiwm o'i fwyn. Plymiodd gwerth Alwminiwm. Nid oedd, ac nid yw, bellach yn drysor! Pan oedd echdynnu Alwminiwm o'i fwyn yn anodd, ystyriwyd y metel yn drysor. Pan ddatblygwyd ffordd haws a rhatach o'i gael, trodd Alwminiwm yn rhywbeth cwbl gyffredin. Oni cheir yn hyn ddisgrifiad o'r hyn sydd wedi digwydd i'r profiad ysbrydol a'r profiad o Dduw yng Nghymru? **O gydnabod fod echdynnu'r profiad ysbrydol o fywyd yn anodd, down i ddeall fod y profiad o Dduw, a Phobl Dduw, yn drysor.** Fe'n rhybuddiwyd gan y Gweinidog, o fodloni ar ffyrdd haws a rhatach o'i gael, try'r profiad yn ysbrydolrwydd llipa, llwyd diddim-didda. Gellir gweld Duw mewn natur yn ddi-os ond cymaint dyfnach ein dealltwriaeth o ddarllen ac astudio'r Beibl, ac o addoli. Her fawr y Gweinidog fore heddiw oedd ar i ni sylweddoli ein bod wedi bod yn euog o'r '*dumbing down*' mwyaf brawychus o'n ffydd - troesom ein trysor drud yn fetel rhad oherwydd i ni feddwl mai dyna beth oedd pobl ei eisiau. Mae dyletswydd arnom i ddangos i'n cyd-Gymry ôl-grefyddol bod rhaid wrth gymdeithas yr eglwys leol i ddarganfod Duw. **Gwyddom fod angen Gwaredwr arnom - Ceidwad Cryf. Dyma ein trysor! *Sut mae argyhoeddi eraill o werth y trysor hwn?* Byw a mynnu byw gan ddangos mor werthfawr ydyw i ni!**

"N'ad i'm fodloni ar ryw rith
o grefydd, heb ei grym,
ond gwir adnabod Iesu Grist
yn fywyd annwyl im."

(Dafydd Morris 1744-91; *C.Ff* 291)

Heno cawsom ymuno â'n Cyd-Gristnogion yn **Eglwys Ebeneser** yn eu Cyfarfodydd Pregethu. Y Parchedig Aled Edwards, Prif Weithredwr **Cytûn** oedd ein Pregethwr Gwadd. Fe'n tywyswyd i Lyfr Genesis, i hanes Joseff y Breuddwydiwr (llun: *Joseph the Dreamer* gan Carole Spandau (gan. 1948)) gan ganolbwyntio ar adnod o'i hanes yn datgelu ei hun i'w frodyr: "*Yn awr, peidiwch â chyffroi na bod yn ddig wrthych eich hunain, am i chwi fy ngwerthu i'r lle hwn, oherwydd anfonodd Duw fi o'ch blaen er mwyn diogelu bywyd.*" (Genesis 45: 5) Yng nghanol gofid ac euogrwydd ei frodyr sicrhaodd Joseff ei deulu nad y gorffennol a'r hyn a oedd wedi digwydd oedd bellach yn bwysig, ond yn hytrach rhaid oedd edrych ymlaen yn hyderus a chadarnhaol i'r dyfodol. Joseff y Breuddwydiwr yn cynnig ffordd ragorach. Soniodd y Pregethwr Gwadd am freuddwydion Joseff am ei berthynas â'i frodyr (Genesis 37: 1-11). Canlyniad hyn oedd i'w frodyr ddigio, ei daflu i'r pydew a'i werthu. Pan ddaeth ei frodyr i'r Aifft nid dial wnaeth Joseff ond dangos ffordd ragorach a maddau. Cyfeiriodd ein Cennad hefyd at Joseff yn y carchar (Genesis 40: 1-22); er ei gam-ddedfrydu gan Potiffar a'i wraig (Genesis 39) daeth Joseff â goleuni i fywyd ei gyd-garcharorion trwy ddehongli eu breuddwydion. Cafodd Pharo hefyd freuddwydion, tynnwyd Joseff o'i gell a thrwy ei ddehongliad achubodd fywydau ei gyd-ddinasyddion - dangosodd ragorach ffordd tuag at y wladwriaeth â'i garcharodd hyd yn oed yng nghanol annhegwch ei gystudd. Cyffelybodd y Pregethwr Gwadd agwedd Joseff i'r hyn a welwyd gan Nelson Mandela (*gan.* 1918; llun 2008) yn 'breuddwydio' am heddwch a chyd-fyw tra yn y carchar ar Ynys Robben. A'r neges i ni yn Hydref 2011? Mor bwysig y breuddwydwyr yn ein plith - y rheini sy'n barod i gynnig y gwahanol, i herio'r traddodiadol a chonfensiynol, ac i ddal ati i bregethu a gweithredu ffordd ragorach yng nghanol diflastod, annhegwch ac anawsterau bywyd.



Cyfarfod olaf Sul prysur a bendithiol oedd **Wedi 7** yng nghartref y Gweinidog. Â'r flwyddyn newydd academaidd wedi cychwyn daeth bron dwsin ynghyd i drafod, cymdeithasu a bwyta! Emyn Moelwyn (J G Moelwyn Hughes; 1866-1944) fydd canolbwynt ein sylw dros y cyfarfodydd nesaf; heno aethpwyd ati i ddechrau dadansoddi'r pennill cyntaf:

"*Fy Nhad o'r nef, O gwrando 'nghri:*
un o'th eiddilaf blant wyf fi;
O clyw fy llef a thrugarha,
a dod i mi dy bethau da."

(*Caneuon Ffydd* 691)

Gweddi yw'r emyn ac onid gweddïau yw'r rhan fwyaf o'n emynau gorau? Onid un o beryglon addoliad cyhoeddus yw canu emynau heb eu gweddïo ar yr un pryd? Enynnodd gwahanol fersiynau o linell olaf yr emyn drafodaeth eang: "*dy bethau da*", "*y pethau da*" neu "*doniau da*" - oes yna wahaniaeth yn y gwahanol gymalau hyn? Canolbwyntiwyd hefyd ar y ffaith mai gweddi bersonol yw'r emyn: "*Fy Nhad ... a dod i mi ...*" - beth felly sy'n digwydd mewn cynulleidfa? Ai gweddïo bob yn un a wnawn? Sut try'r weddi bersonol yn weddi deuluol yr eglwys leol? Estyn y cymal "*un o'th eiddilaf blant wyf fi*" gyfle i ystyried ein heiddilwch wrth ymyl Duw tra hefyd sylweddoli ein bod yn Blentyn Duw. Gweddi i Blant Duw a geir yn yr emyn; cydnabu Plentyn Duw mai ffrwyth trugaredd Duw yw popeth da sydd

mewn bywyd. Canlyniad trugaredd Duw yw'r pethau da sy'n digoni bywyd a diwallu rhaid dyfnaf yr enaid.

Rhwng y ddwy Oedfa Foreol bu'r **Stondin Masnach Deg** yn brysur. Cafwyd hefyd gyfle i gyfrannu tuag at **Fanc Bwyd Caerdydd**. Cyfle i ni yn Eglwys Minny Street, wrth ddiolch am fendithion y Sul, i gofio am a gweithredu er budd ein cyd-ddinasyddion.

Deng Mlynedd ers Cychwyn Rhyfel Afghanistan - 7 Hydref 2011

"*Perthyn i Eglwys Minny Street hanes hen a chefndir hir o heddychiaeth. Magodd apostolion heddwch gwrol iawn. Yr ydym yn falch o'r etifeddiaeth honno ac ar ein deng ewyn yn ceisio bod yn driw wrthi heddiw.*" Â'r Gweinidog ymlaen i ddweud ein bod "*fel eglwys, felly, ar ddegfed pen-blwydd y rhyfel yn Afghanistan, yn cefnogi safiad ac apêl Undeb Annibynwyr Cymru*": "... mae Cristnogion Cymreig yn galw am ddiwedd i'r ymladd. "*Mae'r sefyllfa'n dorcalonnus. Cafodd dioddefaint mawr ei achosi i bobl gan farwolaeth cannoedd o filwyr Prydain a miloedd di-ri o bobl Afghanistan,"* meddai'r Parchg Andrew Lenny, Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.*" Ar adeg o argyfwng economaidd difrifol, mae gwastraffu biliynau o bunnoedd ar ryfela yn beth hollol ddigalon. Fel Cristnogion, rhaid i ni weithio dros heddwch a chymod lle bynnag y ceir gwrthdaro.*""

Yn y datganiad geilw Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ar Lywodraeth Prydain i ddod â'r milwyr adref o Afghanistan cyn gynted â phosibl. Dadl yr Undeb yw y dylai'r arian sy'n cael ei wario ar ryfela gael ei ddargyfeirio i'r Gwasanaeth Iechyd i brynu cyffuriau a meddyginiaethau ar gyfer y cleifion hynny sy'n methu cael triniaeth ar hyn o bryd oherwydd cost uchel y driniaeth honno.

Babimini – 7 Hydref 2011

Pleser oedd troi i mewn i *Babimini* yn Festri Minny Street fore heddiw. Y syndod mwyaf oedd ei bod hi mor dawel! Ni chlywyd 'run sgrech ac ni welwyd 'run deigryn wrth i'r plantos ddifyrru eu hunain gyda'r myrdd o deganau. 'Roedd tractorau a lorïau lliwgar yn cario eu llwythi ar hyd y lle, a phramiau a choetsis yn cael eu gwthio yma ac acw tra'r oedd eraill yn trefnu te parti gyda'r llestri bach. Braf oedd gweld y mamau ifanc yn cael cyfle i sgwrsio'n hamddenol a dod i adnabod ei gilydd tra'r oedd y babanod yn mynd o gôl i gôl. Hyfryd oedd cael croesawu wynebau newydd a sylwi ar y plant yn bwrw ati'n syth i chwarae

gyda'u cyfoedion. Mae cael ambell aelod hŷn wrth law yn help wrth baratoi byrbryd i'r plantos a phaned i'r oedolion. Ar ôl i bawb eistedd ar y mat i ganu nifer o hwiangerddi daeth yn adeg i ganu "*Hwyl fawr ffrindiau, mae'n amser dweud 'Hwyl Fawr*'" … ond 'doedd neb eisiau gadael!

Munud i Feddwl - 5 Hydref 2011

Ydych chi weithiau wedi gweld neu clywed rhywbeth a gofyn "*Beth oedd angen gwneud neu ddweud hynna?*" Dweud yr amlwg, yn aml heb eisiau! Prynu bara oedd y Gweinidog pan y'i trawyd gan gwestiwn o'r fath - darllenwch ei **Funud i Feddwl**. Oes yna berygl bod yr Eglwys yn gwneud hyn weithiau?

Cylch y Gymdeithas Ddiwylliannol a Bywyd Cymdeithasol: Y Gymdeithas – 4 Hydref 2011



Agorwyd Tymor y Gymdeithas gyda gŵr gwadd o'r radd flaenaf, Yr Athro M Wynn Thomas, Athro Saesneg ym Mhrifysgol Abertawe. Bu'n sôn am ddau awdur Eingl-Gymreig oedd â chysylltiad agos iawn gydag Eglwys Minny Street. Traethodd yn huawdl ac yn ddiddorol am yr awduron Glyn Jones (1905-1955) ac Emyr Humphreys (*gan.* 1919) ac am ei adnabyddiaeth o'r ddau. Dyfynnodd yn helaeth o'u gwaith gan roi blas i'r gynulleidfa o'u llenyddiaeth ac awydd i afael mewn rhai o'r cyfrolau a'u darllen. Trwy ddyfynnu o'i lyfr '*In the Shadow of the Pulpit*' (Gwasg Prifysgol Cymru 2011) dangosodd hefyd y dylanwad a gafodd yr eglwysi yng Nghymru ar lenyddiaeth.

Ambiwlans Awyr Cymru, Y Gweddnewidiad ac Eiddo Coll - 2 Hydref 2011

Fel rhan o Eglwys Fawr yr Arglwydd Iesu mae chwilio am oleuni yn rhan annatod o'n priod waith! Wrth ein croesawu i'r Oedfa Foreol cyfeiriodd y Gweinidog at y ffaith ein bod bellach yn Eglwys Minny Street wedi cael trefn ar o leiaf un math o oleuni! Cyfeirio oedd at waith trylwyr y **Cylch Adeiladau** sydd wedi sicrhau goleuadau newydd yn y capel!

Ambiwlans Awyr Cymru yn YsbytyGwyneddYn flynyddol, Sul cyntaf Hydref yw'r Sul y byddwn fel Eglwys yn canolbwyntio, mewn addoliad, ar ein helusen newydd. **Ambiwlans Awyr Cymru** yw elusen 2011 - 2012, a Cylch y Gymdeithas Ddiwylliannol a Bywyd Cymdeithasol yr Eglwys, ynghyd â'r Cylch Elusen, oedd yn gyfrifol am drefnu'r **Oedfa Foreol**. Gruffydd, un o aelodau ffyddlon yr Ysgol Sul, wnaeth ein harwain mewn defosiwn ar ddechrau'r oedfa - canolbwyntiodd ar Hanes Dameg yr Heuwr. Ar ôl gwrando ar eu hadnodau bu'r Gweinidog yn sgwrsio â'r Plant a'r Plantos yn y Sêt Fawr trwy wneud gwahanol ystumiau â'i ddwylo yn hytrach na defnyddio geiriau. 'Roedd y neges i ni'r gwrandawyr yn eglur iawn - hawdd defnyddio geiriau i sôn am ein

Ffydd; rhaid wrth weithredoedd, rhaid wrth wneud rhywbeth dros ac er mwyn Iesu. Dyna, fe'n hatgoffwyd gan y Gweinidog a wna Ambiwlans Awyr Cymru - sicrhau gofal, cymorth a thriniaeth i'r rheini sydd mewn angen. Mor addas geiriau'r emyn a ganwyd:

"*Dwylo ffeind oedd dwylo Iesu ymhob man,*
yn iachau y cleifion a bendithio'r gwan;
golchi traed blinedig, dal rhai isa'r byd,
dwylo ffeind oedd dwylo Iesu Grist o hyd."

(Margaret Cropper 1886-1980 *cyf.* Dafydd Owen *C.Ff.* 372)

Ambiwlans Awyr Cymru oedd **Thema'r Ysgol Sul** heddiw, hefyd. Bu'r Plantos yn dysgu am waith yr Ambiwlans, yn lliwio lluniau o'r hofrennydd ac yn cymryd rhan mewn Sesiwn Holi ac Ateb ar waith Ambiwlans Awyr Cymru. Tebyg bu'r gwaith ymysg y Plant ond aethant hefyd ati i lunio posteri i hybu ymwybyddiaeth o'r hyn a wna ein helusen. Mawr fu'r brwdfrydedd, y dylunio a'r lliwio; cawn weld y posteri ar furiau'r Festri yn y dyfodol agos! Bu'r Plant wrthi hefyd yn creu llên:

"***A**mbiwlans Awyr Cymru.*
***M**ynyddoedd, heolydd.*
***B**rysiwch, mae angen £5 miliwn bob blwyddyn.*
***I**'r awyrennau.*
***W**aw! £1,2000 i wneud un daith.*
***L**lawer o arian!*
***A**chubwch bobl Cymru.*
***N**òd Eglwys Minny Street.*
***S**afiwch eich arian!"*

Mr Alun Davies (llun), un o Ymddiriedolwyr Elusen **Ambiwlans Awyr Cymru** fu'n ein hannerch. Wrth gyflwyno'r elusen nododd bod Ambiwlans Awyr Cymru yn gweithredu drwy Gymru gyfan ac

yn "*cynnig gwasanaeth awyr brys hanfodol i'r rheini sy'n dioddef salwch neu anafiadau sy'n peryglu bywyd.*" Cafodd yr elusen ei sefydlu yn 2001; ar yr adeg honno Cymru oedd yr unig wlad yn Ewrop heb wasanaeth ambiwlans awyr. Erbyn hyn mae gan yr elusen dri hofrennydd gyda thri chriw '*helimed*' - peilot a dau barafeddyg - wedi'u lleoli yng Nghaernarfon, Y Trallwng ac Abertawe i wasanaethu Gogledd, Canolbarth a De Cymru. Cawsom ein rhyfeddu gan y ffaith mai trwy roddion gan y cyhoedd yn unig yr ariannir y gwasanaeth ambiwlans awyr; nid yw'n derbyn grantiau oddi wrth y Llywodraeth. Mae'n ymateb i tua 1,000 o alwadau'r flwyddyn ar gost cyfartaledd o £1,200 yr alwad. Ers 2001, mae'r criwiau awyr wedi hedfan mwy na 8,300 o siwrneiau ar draws Cymru, gan achub bywydau di-rif yn ystod y cyfnod hwn. Aeth Alun Davies yn ei flaen i sôn yn benodol am agweddau unigryw o'r Gwasanaeth Ambiwlans. Mae cyflymder yr hofrennydd a'i allu i gyrraedd mannau anghysbell yn ei wneud yn ateb delfrydol i broblemau, yn arbennig mannau mwyaf gwledig ein gwlad. Gall hefyd gynnig y dull cyflymaf o gyrraedd mannau sy'n anodd i ambiwlans tir eu cyrraedd fel traethau, dociau a chyrsiau golff. Cawsom ein hatgoffa o farn meddygon fod siawns claf i oroesi'n llawer mwy os bydd yn cyrraedd ysbyty o fewn awr. Gelwir hyn yn aml yn 'Awr Aur'. Gall y criwiau awyr fod yn unrhyw' le yng Nghymru o fewn llai na 15 munud gan sicrhau bod y parafeddyg yn cyrraedd y digwyddiad yn gyflym, y claf yn cyrraedd ysbyty'n gyflym ac felly rhyddhau ambiwlansys tir ar gyfer gwaith arall. Uchafbwynt yr Oedfa

oedd y fraint o gael gwrando ar un o'n cyd-aelodau Huw Euron yn canu "*Anfonaf Angel*"; cân a ysgrifennwyd gan gyd-aelod arall, Hywel Gwynfryn, a'i chyfansoddi gan Robat Arwyn ar gyfer pen-blwydd Ambiwlans Awyr Cymru yn 10 mlwydd oed. Mawr fydd ein braint yn Eglwys Annibynnol Minny Street i weithio dros, ac er mwyn, Ambiwlans Awyr Cymru yn y 12 mis nesaf:

"*Pan welwn glaf yn cael ymgeledd mwyn,*
A'r dwylo da yn ceisio lleddfu cwyn,
A gweld y gwrid yn dod i ruddiau gwyw,
O! canwn glod,
O! canwn glod i'r bendigedig Dduw."

(W Rhys Nicholas 1914–96; *Y Dystiolaeth Dda* allan o *Cerddi Mawl. Emynau, Carolau a Salmau*, Gwasg John Penry 1991)

'Roedd ein haddoliad hwyrol yn **Oedfa Gymun** ac fe'n harweiniwyd at **Fwrdd yr Arglwydd** gan bregeth oleuedig yn llawn syniadaeth newydd wrth i'r Gweinidog ddehongli'r Gweddnewidiad

(Mathew 16:21 – 17:13; llun: The Transfiguration gan Raphael (1483 - 1520) yn Orielau'r Fatican, Rhufain). Fe'n hatgoffwyd o sut y bu i Iesu, Pedr, Iago ac Ioan fynd i fyny'r mynydd a thra 'roeddent yno dechreuodd wyneb Iesu ddisgleirio fel yr haul ac ymddangosodd dau ddyn arall. Adnabu Pedr, Iago ac Ioan y ddau ŵr fel Moses ac Elias. Gofyn wnaeth y Gweinidog : "*Am beth fu'r tri yn siarad? Beth oedd testun yr ymddiddan?"* Yn anialwch Cades bu'r Israeliaid yn grwgnach am ofal Duw. Aeth Moses at Dduw, ac meddai Duw wrtho "*Cymer y wialen, a chynnull y gynulleidfa gyda'th frawd Aaron, ac yn eu gŵydd dywed wrth y graig am ddiferu dŵr; yna byddi'n tynnu dŵr o'r garreg ar eu cyfer ac yn ei roi i'r gynulleidfa a'i hanifeiliaid i'w yfed.*" (Numeri 20: 8) Galwodd Moses y bobl ynghyd, cododd ei wialen a tharo'r graig dwywaith. Nid oedd angen iddo fod wedi gwneud dim ond dweud ond teimlodd Moses bod ufuddhau i Dduw yn annigonol, bod rhaid gwneud rhywbeth! Tebyg bu hanes Elias ar Fynydd Carmel**.** Ar ôl profi Grym Duw o'i gymharu â Baal gorchmynnodd Elias fod y 450 o broffwydi Baal yn cael eu lladd. Nid oedd Duw wedi hyd yn oed awgrymu y dylai proffwydi Baal gael eu lladd; Elias a benderfynodd ac a gyflawnodd hynny. *Am beth fu'r tri yn siarad? Beth oedd testun yr ymddiddan?* ***Methiant!!*** Mae'n demtasiwn i gamu tu hwnt i beth ofyn Duw gennym. Nid oes angen dim byd amgenach nag ufudd-dod! Efallai i Moses ac Elias rybuddio Iesu ar Fynydd y Gweddnewidiad ac wrth iddo fentro'r ffordd i Jerwsalem a Chalfaria, i beidio gwyro dim o lwybr ufudd-dod. Mae methiant yn brofiad cyfarwydd i Bobl Dduw. Daw gweinidogaeth Mab Duw i ben yng nghanol budreddi a thorcalon Calfaria. Ond, daeth y bobl i Wlad yr Addewid er gwaethaf methiant Moses! Diflannodd Baal er gwaethaf methiant Elias. **Trodd y methiant pennaf oll - Calfaria - yn fuddugoliaeth sydd yn parhau i symud, cynnal a chadw pobl ym mhob cwr a chornel o'n gwlad a'n byd, er gwaethaf treigl dros 2,000 a rhagor o flynyddoedd!**

Sôn am ddau fwrdd a wnaeth y Gweinidog cyn rhannu'r Elfennau yn ein plith. Cyfeiriodd yn gyntaf at y llond bwrdd o eiddo coll sydd gennym ar ôl bod yn glanhau'r capel dros yr haf. Awgrymodd y Gweinidog bod y Saesneg '*Lost and Found*' yn awgrymu bod rhywun wedi colli pob un o'r eitemau ar y bwrdd, a digwydd bod, bod rhywun arall wedi ei ddarganfod, a'i gadw'n ddiogel. Go brin nad yw pawb ohonom yn teimlo weithiau ein bod wedi gadael ein hunain ar ôl yn rhywle; dyma pryd

mae cael ein darganfod yn fendith heb ei thebyg: "*I once was lost, but now am found*." (John Newton 1725 - 1807) Anhygoel yw'r cariad sydd yn ein darganfod ni bob un! Dychmygwch, meddai'r Gweinidog, sut y teimlodd aelodau Eglwys Corinth, yng nghanol eu gofidiau , o dderbyn llythyr gan Paul yn agor gyda'r geiriau: "*Yr wyf yn diolch i'm Duw bob amser amdanoch chwi.*" (1 Corinthiaid 1:4a).

Anogodd y Gweinidog i ni, wrth gymryd o'r Bara a'r Gwin, sylweddoli os ydym, rywbryd, rhywsut wedi teimlo ein bod yn gorwedd yn llipa ymhlith yr eiddo ar Fwrdd yr Eiddo Coll, am gofio mai neges Bwrdd y Swper yw bod neb o bobl Dduw fod teimlo fel yna, ac mai gwaith Pobl Dduw yw gwaith Duw - dod o hyd i bobl. Aethpwyd a'r **Cymun Teithiol** i'w rannu â dau aelod, un yn ei chartref a'r llall yn yr ysbyty.

Yn yr ail o'i **Lythyron Agored** i Eglwys Minny Street sôn y Gweinidog am bwysigrwydd mynychu **Oedfa Gymundeb**. Cyfeiria at y cyfle a estynnir yn oedfa hon i adnewyddu, yn fisol, ein cyfamod a Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, ac i wneud llw newydd bob mis o ffyddlondeb iddo, a thrwy hynny derbyn nerth i ddal ati. Mor fawr y golled o golli'r oedfa arbennig hon. Bu'r **Cylch Plant** yn cyfarfod ar ôl yr Oedfa'r Foreol i drafod ei Cynllun Gwaith ar gyfer y flwyddyn waith newydd. Yn ystod y prynhawn bu nifer o aelodau Eglwys Minny Street yn Festri'r Tabernacl yn rhannu brechdanau, te a choffi ymysg **digartref Caerdydd**. Bu aelodau eraill yn paratoi'r lluniaeth yn ystod y bore. Am yr ail dro yn olynol daeth nifer llawer mwy nag arfer i'r te - rhyw 50 heddiw. Ai arwydd yw'r cynnydd amlwg mewn niferoedd o ddifrifoldeb effeithiau a goblygiadau'r sefyllfa economaidd?

Tair o ferched yr Hen Destament sy'n cael sylw ym **Myfyrdod y Mis** – ***Rebeca, Lea a Rachel***, a llun El Greco (1541 – 1651) o'r ddau apostol, *Apostles Peter and Paul* sy'n derbyn ymdriniaeth gan y Gweinidog yn **... ac Ati**. Cawn gyfle i barhau a'n darlleniadau dyddiol o'r Ysgrythur trwy ddilyn y **Darlleniadur**.

Fel Eglwys, cymerwn gyfle i longyfarch y **Parchedig Denzil John** ar gwblhau 20 mlynedd o weinidogaeth glodwiw yn **Eglwys y Tabernacl Caerdydd**. Dymunwn yn dda iddo ef a'r eglwys i'r dyfodol.